

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	10 Tachwedd 2020
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	25 Tachwedd 2020

PWNC

Eitem :CYNLLUN GWELLA'R A496 LLANBEDR (MYNEDIAD I GANOLFAN AWYROFOD ERYRI)

PENDERFYNIAD

Awdurdodi gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO) mewn perthynas â Chynllun Gwella Ffordd Llanbedr yr A496.

Awdurdodi Pennaeth yr Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad ag Aelod Cabinet yr Amgylchedd a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i gaffael yr holl fuddiannau angenrheidiol yn y tir a nodir yn Atodiad 5 yr adroddiad i gyflawni Cynllun Gwella Ffordd Llanbedr yr A496 a, lle bo angen cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gaffael y buddion hynny trwy gyfrwng CPO gan gynnwys dilyn ei gadarnhad gyda Gweinidogion Cymru pe bai'r Cyngor yn methu â dod i setliad wedi'i negodi ar gyfer prynu'r buddion hynny o fewn amserlenni'r cynllun.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn 2013, dynodwyd Canolfan Awyrofod Eryri fel rhan o Barth Menter Eryri, ac ers hynny mae'r Cyngor wedi gweithio yn agos gyda'r Ganolfan a Llywodraeth Cymru i hwyluso ei ddatblygiad. Nodwyd fod y gyffordd yng nghanol Llanbedr sy'n arwain at y Ganolfan Awyrofod yn gul ac yn anodd i gerbydau a bron yn amhosib yn ystod misoedd yr haf o gyda nifer uchel o ymwelwyr. Er mwyn hwyluso'r datblygiad ac i liniaru materion traffig yn y pentref ei hun mae prosiect Cynllun Gwella yn datblygu ffordd osgoi Llanbedr.

Mae angen cadarnhad o barodrwydd y Cyngor i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol a / neu gaffael i alluogi datblygiad Cynllun Gwella'r A496 Llanbedr

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Nodwyd barn yr Aelod Lleol ar lafar yn ystod y pwyllgor.

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:

Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD
